Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 12fed o Hydref 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas (Cadeirydd), y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. David Williams, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Charlotte Leadbeater
Roger Phillips (Clerc y Dref)
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Christopher Parish

Cof 171 / Hyd / 11 Ceisiadau cynllunio i'w penderfynu.

E/25412 Newid defnydd o ardal siop (A1) i eiddo preswyl (C3) yn 31, Heol Newydd
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â bod y newidiadau'n cydymffurfio â'r Ardal gadwraeth

E/25469 Estyniad un llawr arfaethedig i ochr/cefn yr adeilad presennol yn King's Lodge, Kennel Cottage
Sylw: Dim arsylwadau

E/25438 Cais i gadw a chwblhau ardal o ardd uchel ar dir gyferbyn i 36, Heol Cilgant
Sylw: Byddai'r Pwyllgor yn cynnal ymweliad safle.

Cof 172 / Hyd /11 Doedd dim penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio.

Cof 173 / Hyd /11 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl.

Cof 174 / Hyd / 11 Doedd dim Apeliadau Cynllunio.

Cof 175 / Hyd /11 Mater yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd.

1. Darllenodd y Clerc yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth Roger Williams, Asiantaeth Cefnffyrdd, mewn perthynas â'r trefniadau i gau Stryd Rhosmaen rhwng y 24ain o Hydref a diwedd mis Tachwedd. Diolchwyd i'r Clerc am weithredu mor gyflym. Byddai'r Clerc yn hysbysu'r Siambr Fasnach a Gŵyl y Synhwyrau.

Cof 176 / Hyd / 11 Doedd dim materion yn ymwneud â Goleuadau.

Cof 177 / Hyd / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd Mr Dilwyn Thomas wedi bod yn ymchwilio i'r staen ar nenfwd llawr cyntaf Neuadd y Sir, a darganfu fod peth o'r plwm wedi darfod. Cytunwyd y byddai'r gwaith atgyweirio hwn yn cael ei wneud pan fyddai Mr Thomas yn amnewid y ffenestri ar y llawr cyntaf, gan y byddai'r sgaffaldau yn eu lle yn barod. Byddai hyn yn golygu arbediad sylweddol ar gostau sgaffaldau.

Dywedodd Mr Davies fod y pwyntiau angori wedi cael eu profi'n llwyddiannus ar y penwythnos.

Cof 178 / Hyd /11 Doedd dim gohebiaeth.

Cof 179 / Hyd / 11 Eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gofynnodd y Cyng. Roy Davies a fyddai modd i'r Clerc i holi Eirian James, Rheolwr Hawliau Tramwy CSG, ynglŷn â sefyllfa'r cais am grant i wella Pont y Brenin a'r llwybrau troed amgylchynol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh.